# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09: - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_09_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Angela Hopkins, Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Saesneg yn unig)**<br>**Geoff Lang, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Dr Martin Duerden, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Helen Simpson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru** |

| Staff y Pwyllgor: | **Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Gareth Price (Clerc)** |
|---|---|

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Datganodd Julie Morgan fuddiant am fod ei merch wedi bod yn rhan o'r tîm GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a fu'n ymchwilio i ddigwyddiadau'n ymwneud â *C Difficile* ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Geoff Lang, Prif Weithredwr Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Dr Martin Duerden, Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Angela Hopkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a Helen Simpson, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion am ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y cyd, 'Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr'.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu:

- Rhagor o fanylion ynghylch pa mor aml y bu cyfarfodydd rhwng Prif Weithredwr GIG Cymru a Phrif Weithredwr ac uwch reolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Rhagor o fanylion ynghylch pa mor aml y bu cyfarfodydd rhwng Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwr Cyllid presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru.
- Ffigurau'n dangos sawl claf gafodd lawdriniaeth wedi'i hoedi o ganlyniad i'r lleihad yn nifer y triniaethau a berfformiwyd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y newid i safon perfformiad.
- Copïau o'r adolygiadau allanol a gynhaliwyd gan Chris Hurst ym mis Ebrill 2012 ac Allegra ym mis Rhagfyr 2012.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

- Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ar 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru';

- Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru';
- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch 'Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol';
- Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru ar 'Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg';
- rhaglen waith gweddill tymor yr haf;
- cofnodion cyfarfod 2 Gorffennaf 2013.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 5 Trafod y dystiolaeth ar Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd fel rhan o'i ymchwiliad i Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

5.2 Bydd y Pwyllgor yn cymryd rhagor o dystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad ddydd Iau 18 Gorffennaf 2013.

## 6 Trafod adroddiad drafft 'Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'

6.1 Yn sgîl cyfyngiadau amser, cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafod adroddiad drafft y Pwyllgor, 'Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori' tan y cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2013.

## 7 Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol: Ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.